# Amodau Cofrestru 2020/21

## Cytundeb Atodol (Nyrsio)

# Cynnwys

Cwmpas ..... 2

Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu ..... 2

Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu..... 2

Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon..... 3

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru (Nyrsio) 2019/20 (Saesneg yn unig)..... 3

Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol..... 3

Dogfennaeth Gysylltiedig..... 4

Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:..... 4

Egwyddorion Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored..... 4

Cyflwyniad..... 4

Prif delerau'r Cytundeb Atodol..... 5

1 Crynodeb o brif delerau'r Cytundeb Atodol..... 5

2 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer..... 6

3 Cyfnodau Ymarfer Dysgu..... 7

4 Terfynu Cyflogaeth a/neu Nawdd..... 9

5 Terfynu Cofrestriad..... 10

6 Eich Astudiaethau..... 11

7 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data..... 12

8 Rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu eu gohirio..... 13

Rhestr termau..... 14

Eglurhad pellach..... 16

Fformat amgen..... 16

Atodiad A..... 17

Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i fyfyrwyr gwblhau eu cymhwyster. ..... 17

| | |
|---|---|
| Rhif y fersiwn: 1.0 | Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd |
| Yn weithredol o: 1 Awst 2020 | Dyddiad adolygu: 1 Ionawr 2021 |

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilaidd, sef broceru credyd.

# Cwmpas

## Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn gymwys i fyfyrwyr sydd wedi cael eu derbyn ar raglen Nyrsio Cyn Cofrestru'r Brifysgol Agored yn unig a noda'r telerau ychwanegol sy'n ymwneud ag astudio Cymhwyster Nyrsio.

---

## Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Nid yw'r Cytundeb Atodol hwn yn gymwys i fyfyrwyr nad ydynt wedi cael eu derbyn eto ar raglen Nyrsio Cyn Cofrestru'r Brifysgol Agored, myfyrwyr sy'n astudio modiwlau a allai gyfrannu at gymhwyster y tu hwnt i'r rhaglen nyrsio, na myfyrwyr sy'n astudio cymwysterau neu raglenni dysgu seiliedig ar waith eraill, megis gwaith cymdeithasol.

Nid yw'n gymwys i fyfyrwyr sy'n astudio fersiynau o fodiwlau a/neu gymwysterau nad ydynt yn rhai nyrsio.

### Prentisiaethau

Os ydych yn astudio prentisiaeth, **nid** yw'r rhannau canlynol o'r Cytundeb Atodol Amodau Cofrestru hwn yn gymwys:

- Cymal 3.4 "Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)." Yn hytrach, dylai myfyrwyr prentisiaethau gyfeirio at gymal 3.5 "Myfyrwyr sy'n astudio ar raglen brentisiaeth".
- Adran 4.1 "Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)". Yn hytrach, dylai myfyrwyr prentisiaethau gyfeirio at gymal 4.2 "Myfyrwyr sy'n astudio ar raglen brentisiaeth".
- Cyfeiriadau at Reolau Ffioedd yn Adran 5 "Terfynu Cofrestriad". Yn hytrach dylai myfyrwyr prentisiaethau gysylltu â'u APDM neu gyswllt cyfatebol am ragor o wybodaeth.
- Adran 5.3 "Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio y tu hwnt i raglen brentisiaeth".
- Cymal 6.1b: colli swydd heb fod unrhyw fai arnoch chi ac yn methu â dod o hyd i swydd arall yn syth.

- Cymal 6.3: yn astudio bob yn ail flwyddyn o leiaf neu'n cymryd seibiant astudio sydd wedi'i gymeradwyo.
- Adran 8 "Rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu eu gohirio" – Dylai prentisiaid gyfeirio at Adran G5 "Changing your study plans for exceptional or personal reasons" o'r Rheoliadau Academaidd (Prentisiaid) (Saesneg yn unig).

---

## Cytundebau Atodol a ddisodlir gan y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru (Nyrsio) 2019/20 (Saesneg yn unig).

---

## Crynodeb o'r prif newidiadau ers y fersiwn flaenorol

Bu sawl newid pwysig ers y fersiwn flaenorol o'r polisi hwn, sef:

a) Cynnwys prentisiaethau gradd nyrsio, ac ychwanegu cyfeiriadau at Amodau Cofrestru (Prentisiaethau), Hysbysiad Preifatrwydd Nyrsio a Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau lle y bo'n berthnasol. Lle nad yw adrannau yn berthnasol i Brentisiaid, fe'u rhestrwyd yn 'y tu hwnt i'r cwmpas' neu ddim yn gymwys.

b) Ychwanegu paragraff 2.6 i nodi nad yw cael cynnig lle na chwblhau'r cymhwyster yn sicrhau y caiff unigolyn ei gynnwys ar gofrestr broffesiynol yr NMC.

c) Brawddeg ychwanegol ym mharagraff 3.1(c) i egluro'r gofyniad am gyflogaeth barhaus.

d) Ychwanegu paragraff 3.5 ar gyfer Prentisiaethau nas cwmpesir o dan baragraff cyfredol 3.4.

e) Diwygio paragraff 4.1.2 (4.2 cynt) i ddileu'r cyfeiriad at Loegr yn unig.

f) Ychwanegu Adran 4.2 ar gyfer prentisiaid nas cwmpesir o dan Adran gyfredol 4 (adran 4.1 bellach).

g) Cymal ychwanegol o fewn 5.2 i egluro'r gofyniad i Brentisiaid gysylltu â'u APDM neu gyswllt cyfatebol am ragor o wybodaeth.

h) Mwy o eglurder ym mharagraff 6.1 i ddiwygio'r amserlenni cwblhau, a darparu gwybodaeth ychwanegol am estyniadau i Brentisiaid.

i) Diwygio paragraff 7.1d i ddileu'r cyfeiriad at rannu data â thrydydd partïon, a diwygio'r cyfeiriad at ddiogelu a phrosesu gwybodaeth Y Brifysgol Agored yn unig.

j) Mae pob cyfeiriad at 'Radd Nyrsio" wedi'i newid i 'gymhwyster Nyrsio'.

# Dogfennaeth Gysylltiedig

### Cyfeiriwch at y ddogfennaeth ganlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

- Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau (Saesneg yn unig)
- Amodau Cofrestru (Saesneg yn unig)neu Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid (Saesneg yn unig) fel y bo'n berthnasol i'ch cymhwyster
- Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr (Saesneg yn unig)
- Hysbysiad Preifatrwydd Nyrsio (Saesneg yn unig)
- Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer (Saesneg yn unig)
- Rheolau Ffioedd (Cyrsiau Gradd) (Saesneg yn unig)
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) - Y Cod ar gyfer nyrsys a bydwragedd
- Rheoliadau cymhwyster-benodol ar gyfer eich cymhwyster Nyrsio.

---

### Egwyddorion Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion canlynol a nodir yn Siarter Myfyrwyr Y Brifysgol Agored:

- Egwyddor 2: Ein nod yw ysbrydoli a galluogi dysgu
- Egwyddor 3: Rydym yn rhannu'r cyfrifoldeb dros ddysgu

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored mewn perthynas ag astudio tuag at gymhwyster Nyrsio Cyn cofrestru. Dyma'r Cytundeb Atodol y cyfeirir ato yn yr Amodau Cofrestru a'r Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Amodau hynny a'r rheolau, rheoliadau a pholisïau a nodir ynddynt ac yn y cytundeb hwn. Drwy gofrestru ar gyfer cymhwyster Nyrsio, rydych yn cytuno ar y telerau hyn.

Mae'r Cytundeb hwn yn weithredol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich cymhwyster Nyrsio, a bydd yn parhau i fod yn gymwys tan eich bod wedi cwblhau eich cymhwyster, neu tan y bydd eich cofrestriad wedi dod i ben neu wedi cael ei ganslo, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Am arweiniad penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'r tîm Nyrsio drwy e-bostio wels-np-queries@open.ac.uk . Mae'r tîm wedi'i hyfforddi'n arbennig i roi cyngor ar weithredu'r cytundeb hwn.

# Prif delerau'r Cytundeb Atodol

## 1 Crynodeb o brif delerau'r Cytundeb Atodol

1.1. Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb bras o delerau atodol eich cytundeb i astudio cymhwyster Nyrsio gyda'r Brifysgol Agored. Rydych yn cytuno i wneud y canlynol:

a) Cydymffurfio â'r safonau proffesiynol a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio a'u cyrraedd.

b) Parhau mewn cyflogaeth a chael cefnogaeth barhaus eich Noddwr Dysgu tra'ch bod yn astudio tuag at gwblhau eich cymhwyster Nyrsio.

c) Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Noddwr Ariannol (lle y bo'n gymwys) a Darparwr Lleoliad, fel y'u nodir yn eu priod bolisïau a gweithdrefnau.

d) Cyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio, fel y'u nodir yn Y Cod, yn ogystal â'r safonau academaidd a'r gofynion seiliedig ar ymarfer a nodir yn y gwefannau modiwl a chymhwyster perthnasol. Mae'n rhaid i chi wneud hyn er mwyn ennill eich cymhwyster Nyrsio.

e) Hysbysu'r Brifysgol Agored, Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr Dysgu a'ch Noddwr Ariannol, cyn gynted â phosibl, am unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â methu â bodloni gofynion o'r fath.

f) Deall y gall Y Brifysgol Agored atal neu derfynu eich cofrestriad, neu wrthod dyfarnu'r cymhwyster Nyrsio os na fodlonir y telerau a nodir yn y cytundeb hwn.

g) Deall y gall Y Brifysgol Agored, Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr Dysgu, eich Noddwr Ariannol ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad rannu gwybodaeth angenrheidiol am eich iechyd, anabledd, perfformiad academaidd, ymddygiad, addasrwydd i ymarfer a safonau proffesiynol. Caiff gwybodaeth o'r fath ei chadw'n ddiogel, a dim ond yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr, Hysbysiad Preifatrwydd Nyrsio a Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau Y Brifysgol Agored y caiff ei phrosesu.

## 2 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer

2.1 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn, rydych yn cydnabod yn benodol eich bod yn deall ac yn cytuno i ymrwymo i'r safonau proffesiynol a bennwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio yn y Cod sy'n gymwys i fyfyrwyr Nyrsio. Mae hyn yn golygu'r canlynol:

a) Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni nac yn cynnal y safonau hyn ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer y cymhwyster Nyrsio, efallai y cewch eich cyfeirio o dan Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer Y Brifysgol Agored.

Gall hyn arwain at y canlynol o ran eich astudiaethau tuag at un o'r cymwysterau yn y rhaglen Nyrsio:

- gosod amodau fel eich bod yn gallu parhau i astudio ar gyfer y cymhwyster Nyrsio hwnnw;
- eich atal rhag astudio ar gyfer y cymhwyster hwnnw;
- terfynu cofrestriad tuag at y cymhwyster hwnnw;
- peidio â dyfarnu'r cymhwyster hwnnw.

b) Rydych yn cytuno i hysbysu'r Brifysgol Agored cyn gynted ag y bo'n ymarferol am unrhyw fater a all esgor ar unrhyw bryder am eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio, gan atgyfeirio unrhyw fater o'r fath ar lafar, yn electronig neu'n ysgrifenedig at eich Tiwtor Ymarfer neu, lle y gall hyn beri oedi, at y Tiwtor Staff neu Reolwr Addysg yn eich ardal. Bydd y Cyswllt Cyflogi yn eich sefydliad yn gallu darparu manylion cyswllt fel y bo angen.

2.2 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad cymhwyster Nyrsio, rhaid eich bod, ym marn y Panel Canlyniadau Modiwl ar gyfer pob modiwl a gwblheir, yn bodloni'n foddhaol y gofynion academaidd a'r gofynion safonau proffesiynol. Mae'n rhaid i chi gwblhau'r holl fodiwlau priodol yn llwyddiannus fel y'u nodir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i'ch cymhwyster er mwyn cael y dyfarniad.

2.3 Os na fyddwch wedi cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol oherwydd materion a gododd cyn i chi gofrestru â'r Rheoleiddiwr, gall datganiad i'r Rheoleiddiwr am eich iechyd a'ch cymeriad da gael ei gadw'n ôl ar argymhelliad panel Addasrwydd i Ymarfer. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os byddwch wedi ennill digon o gredyd modiwl i fodloni gofynion academaidd ac ymarfer dysgu'r cymhwyster Nyrsio. Byddai hyn yn golygu na allech gofrestru, ac felly ymarfer, fel nyrs er bod y cymhwyster wedi'i ddyfarnu.

2.4 Os yw cymhwyster Nyrsio wedi'i ddyfarnu a daw unrhyw faterion a gododd cyn ei ddyfarnu i'r amlwg a bod y Panel Addasrwydd i Ymarfer o'r farn y dylent fod wedi cael eu datgan ac y byddai hynny wedi arwain at atal y cymhwyster Nyrsio, caiff y mater ei atgyfeirio at Bwyllgor Disgyblu Canolog y Brifysgol sydd â'r pŵer i dynnu'r cymhwyster Nyrsio yn ôl.

2.5 Os na chaiff y cymhwyster Nyrsio ei ddyfarnu gallech gael cynnig cymhwyster amgen gan Y Brifysgol Agored, lle rydych yn bodloni'r gofynion credyd ar ei gyfer.

2.6 Ni fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gan Y Brifysgol Agored na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar gofrestr broffesiynol yr NMC. Mae'r NMC yn cadw'r hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru (gweler y Canllawiau ar Iechyd a Chymeriad (Saesneg yn unig), NMC 2019). Cyfeiriwch at ganllawiau'r NMC am y wybodaeth fwyaf diweddar am ofynion cyfredol cofrestru â'r NMC.

---

## 3 Cyfnodau Ymarfer Dysgu

3.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster Nyrsio gyda'r Brifysgol Agored, rydych yn cytuno i wneud y canlynol:

a) Cydweithredu â'ch Noddwr Dysgu/Cyflogwr (Prentisiaid) er mwyn hwyluso eich cyfranogiad mewn Cyfnodau Ymarfer Dysgu priodol i'ch galluogi i gyflawni deilliannau dysgu'r Radd Nyrsio.

b) Cydweithredu â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu neu Ddarparwr Lleoliad a bodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r Darparwr Lleoliad a chydymffurfio â'i rwymedigaethau cyfreithiol a safonau gwasanaeth mewn cysylltiad â'ch rhan yn y Cyfleoedd Ymarfer Dysgu a ddarperir.

c) Cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogi'r Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu a/neu'r Darparwr Lleoliad a chymryd pob cam rhesymol i gynnal eich cyflogaeth ac unrhyw Gyfleoedd Ymarfer Dysgu a ddarperir er mwyn cwblhau'r cymhwyster Nyrsio. Noder: mae cyflogaeth barhaus yn ofynnol er mwyn parhau i astudio'r cymhwyster Nyrsio drwy'r llwybr rhaglen.

3.2 Wrth gyflawni ymarfer dysgu mae'n ofynnol i chi gydweithredu â'r Mentor a neilltuir i chi gan eich Darparwr Lleoliad ymarfer. Bydd eich Mentor yn:

a) cynnal arsylwadau ac ymarfer wedi'i oruchwylio, gan gynnig adborth rheolaidd i chi drwy gydol y Cyfnodau Ymarfer Dysgu;

b) cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan y Rhaglen Nyrsio Cyn Cofrestru;

c) cymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, monitro ac adolygu cyfarfodydd gyda chi a'ch Tiwtor Ymarfer.

3.3 Os byddwch yn torri'r cymalau a nodir ym mharagraffau 3.1 a 3.2, ac nad yw, ym marn eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu na Thiwtor / Rheolwr Addysg Y Brifysgol Agored, yn rhesymol ymarferol i chi gwblhau Cyfnod Ymarfer Dysgu, nid yw'n ofynnol i'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Darparwr Lleoliad na'r Brifysgol Agored roi cyfle pellach i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn tybir eich bod wedi methu'r modiwl a gall eich astudiaethau gael eu hatal yn unol â'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

3.4 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)

3.4.1 Os na fydd y Noddwr Dysgu yn rhoi digon o amser i chi gwblhau Cyfnodau Ymarfer Dysgu fel y nodir yn y deunyddiau modiwl, bydd Y Brifysgol Agored yn ceisio ymestyn eich cyfnod astudio er mwyn galluogi'r Noddwr Dysgu i ddarparu cyfleoedd ymarfer dysgu digonol. Y Noddwr Dysgu neu, lle y bo'n gymwys, y Noddwr Ariannol fydd yn atebol am unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i'r fath estyniad, neu am roi cyngor a chymorth i chi ddod o hyd i Noddwr Dysgu a/neu Gyfnodau Ymarfer Dysgu amgen.

3.5 Myfyrwyr sy'n dilyn rhaglen brentisiaeth

3.5.1 Fel Prentis, mae'n ofynnol i'ch cyflogwr roi 20 y cant o oriau â thâl 'y tu allan i'r swydd' i chi astudio. Cytunwyd ar hyd eich prentisiaeth ar ddechrau'r rhaglen ac mae'n cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu.

# 4 Terfynu Cyflogaeth a/neu Nawdd

4.1 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o raglen brentisiaeth)

4.1.1 Bydd rhwymedigaethau eich Noddwr Dysgu, fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn, yn dod i ben os byddwch yn gadael eich cyflogaeth. Er mwyn parhau i fod wedi eich cofrestru ar gyfer y cymhwyster Nyrsio byddwch yn gyfrifol am ddod o hyd i Noddwr Dysgu amgen addas er mwyn cwblhau unrhyw ymarfer dysgu pellach sydd ei angen a chwblhau'r cymhwyster Nyrsio o fewn y terfyn amser penodedig.

4.1.2 Os byddwch yn cael cymorth ariannol o ran ffioedd dysgu a/neu unrhyw gymorth ariannol arall a bod y nawdd ariannol hwn yn cael ei dynnu'n ôl am unrhyw reswm, rhaid i chi sicrhau eich bod yn parhau i gyflawni eich rhwymedigaethau o ran ffioedd dysgu. Gall hyn gynnwys cael nawdd ariannol newydd neu drefnu benthyciad myfyriwr. Os na fyddwch yn dod o hyd i ffordd o dalu eich ffioedd dysgu, ni chewch ddilyn y rhaglen mwyach.

4.1.3 Rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol Agored cyn gynted â phosibl am unrhyw newid posibl i'ch cyflogaeth a all effeithio ar eich perthynas barhaus â'ch Noddwr Dysgu a / neu eich Noddwr Ariannol er mwyn ystyried trefniadau amgen.

4.1.4 Os bydd eich Noddwr Dysgu a'ch Noddwr Ariannol yn sefydliadau gwahanol a'ch bod yn gadael eich cyflogaeth wedyn, gyda chytundeb eich Noddwr Ariannol, cewch chwilio am gyflogaeth addas gyda chyflogwr amgen a fydd yn cytuno i weithredu fel eich Noddwr Dysgu. Bydd hyn yn eich galluogi i barhau â'ch cymhwyster Nyrsio ar yr amod bod y cyflogwr newydd yn gallu darparu'r profiadau ymarfer dysgu priodol a Mentoriaid i fodloni gofynion y cymhwyster. Rhaid i chi gysylltu â'r Tîm Nyrsio i drafod hyn.

4.1.5 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Noddwr Dysgu ei derfynu, bydd Y Brifysgol Agored yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen y rhaglen, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl Gyfnodau Ymarfer Dysgu sydd eu hangen.

4.2 Myfyrwyr sy'n dilyn rhaglen brentisiaeth

4.2.1 Os caiff eich cyflogaeth ei therfynu am unrhyw reswm yn ystod eich prentisiaeth, cysylltwch â'ch tiwtor ymarfer neu Reolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM neu unigolyn cyfatebol) cyn gynted â phosibl oherwydd bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen ddysgu

## 5 Terfynu Cofrestriad

5.1 Gall Y Brifysgol Agored ganslo eich cofrestriad ar gyfer y cymhwyster Nyrsio o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr Amodau Cofrestru neu Amodau Cofrestru (Prentisiaid) fel sy'n briodol i'ch cymhwyster. Gallwn hefyd ganslo eich cofrestriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:

- parhau mewn cyflogaeth;
- cyflawni ymarfer dysgu gyda'ch Noddwr Dysgu neu Ddarparwr Lleoliad cytûn; neu
- cynnal safonau'r Awdurdod Rheoleiddio o ran eich iechyd, cymhwysedd a safonau ymddygiad.

5.2 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyniad), caiff eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Ariannol (lle y bo'n gymwys) a/neu eich Noddwr Dysgu benderfynu a yw'n parhau i'ch cefnogi ar y rhaglen Nyrsio. Dylai myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio y tu hwnt i raglen brentisiaeth gyfeirio at y meini prawf a amlinellir yn y Rheolau Ffioedd er mwyn penderfynu a ddylech chi neu eich Noddwr Ariannol dalu ffioedd is i ailastudio modiwl rydych wedi ei fethu. Os ydych yn Brentis sy'n dilyn y rhaglen Nyrsio, dylech gysylltu â'ch APDM neu unigolyn cyfatebol am ragor o wybodaeth i weld a gewch gefnogaeth i barhau.

5.3 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio y tu hwnt i raglen brentisiaeth

5.3.1 Os bydd eich Noddwr Ariannol neu Noddwr Dysgu yn rhoi'r gorau i'ch cefnogi, bydd Y Brifysgol Agored yn canslo eich cofrestriad ar gyfer y cymhwyster Nyrsio. Bydd eich cofrestriad yn ailddechrau os byddwch, cyn dyddiad dechrau cyflwyno'r modiwl nesaf, wedi cael gafael ar Noddwr Ariannol amgen (neu yn Lloegr yn unig, wedi gwneud trefniadau amgen addas i dalu ffioedd dysgu) a/neu Noddwr Dysgu.

5.3.2 Os caiff cymorth ei dynnu'n ôl, gallwch astudio modiwlau academaidd nad ydynt yn benodol i'r rhaglen Nyrsio ar eich cam astudio presennol, ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl hwnnw, ond bydd angen i chi ddod o hyd i Noddwr Ariannol neu Ddysgu arall er mwyn parhau â'r rhaglen erbyn dyddiad dechrau'r modiwl nesaf.

5.3.3 Os caiff eich contract â'ch Noddwr Dysgu ei derfynu, rhaid i chi ddod o hyd i un arall er mwyn cwblhau modiwlau sy'n cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu gofynnol ar gyfer y cam ar y Radd Nyrsio rydych yn ei astudio. Os na fyddwch yn gwneud hyn o fewn 2 flynedd i'ch Cyfnod Ymarfer Dysgu diwethaf, cewch eich dadgofrestru o'r Radd Nyrsio. Mewn amgylchiadau o'r fath gallwch gadw eich credyd a dychwelyd i astudio'n hwyrach os

byddwch yn gymwys i wneud hynny, yn ddarostyngedig i'r rheolau a'r rheoliadau sydd ar waith pan fyddwch yn cofrestru wedyn.

---

## 6 Eich Astudiaethau

6.1 Rhaid i chi gwblhau eich cymhwyster Nyrsio o fewn y cyfnod penodedig ar gyfer y cymhwyster hwnnw (a nodir yn y Rheoliadau sydd ar gael ar StudentHome), oni chewch estyniad yn ôl disgresiwn y Bwrdd Astudiaethau Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol. Os ydych yn astudio prentisiaeth, rhaid i unrhyw gais am estyniad gael ei wneud gyda chytundeb eich Cyflogwr a'r Brifysgol Agored a rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a nodir gan eich Darparwr Cyllido a'r rheoleiddiwr. Gellir ystyried ceisiadau am estyniad os nad ydych wedi gallu astudio oherwydd rhesymau y tu hwnt i'ch rheolaeth (gweler Atodiad A). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir rhoi estyniad yn cynnwys y canlynol:

a) os ydych wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer a'ch bod wedi cael eich ailgyflogi ar ôl hynny;

b) os byddwch yn colli eich swydd er nad chi oedd ar fai, ac nad ydych yn gallu dod o hyd i swydd arall ar unwaith (myfyrwyr sy'n astudio am gymhwyster Nyrsio y tu hwnt i brentisiaeth yn unig).

6.2 Os byddwch, am unrhyw reswm, yn methu â chwblhau Cyfnodau Ymarfer Dysgu modiwl: pan fyddwch yn dychwelyd i astudio, bydd yn ofynnol i chi gwblhau o leiaf y Cyfnod Ymarfer Dysgu olaf ar gyfer y Cam ar y cymhwyster Nyrsio roeddech wedi'i gyrraedd cyn y tarfwyd ar eich astudiaethau. Gallwch ofyn am i oriau ymarfer rydych wedi eu cwblhau yn ystod y modiwl gael eu cario ymlaen o'r Cyfnodau Ymarfer Dysgu hynny rydych wedi eu cwblhau'n llawn.

6.3 Os byddwch yn astudio cymhwyster Nyrsio y tu hwnt i raglen brentisiaeth, er mwyn cwblhau eich cymhwyster Nyrsio gyda'r Brifysgol Agored, rhaid i chi astudio bob yn ail flwyddyn o leiaf, neu gymryd seibiant astudio wedi'i gymeradwyo fel y nodir yn Mholisi a Gweithdrefn Newid eich Cynlluniau Astudio (Saesneg yn unig). Os na fyddwch yn gwneud hyn, cewch eich dadgofrestru o'ch cymhwyster Nyrsio.

6.4 Cewch ddechrau modiwl ar gam nesaf y cymhwyster Nyrsio cyn i chi gwblhau modiwl a chael y canlyniadau ar gam cynharach. Os felly, rhaid eich bod wedi cwblhau'r modiwl a chael y canlyniadau ar y cam cynharach o fewn 12 wythnos i ddechrau'r modiwl ar y cam diweddarach. Os nad yw hyn yn bosibl neu os nad ydych yn llwyddo, ni fyddwch yn gallu dechrau'r modiwl, na pharhau i fod wedi eich cofrestru, ar y cam diweddarach.

## 7 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data

7.1 Gweler Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr, Hysbysiad Preifatrwydd Nyrsio, a Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau Y Brifysgol Agored (os ydych yn astudio'r cymhwyster Nyrsio drwy brentisiaeth) am wybodaeth lawn am y ffordd y caiff data eu casglu a'u defnyddio gan Y Brifysgol Agored. Mae rhai pwyntiau ychwanegol sy'n ymwneud â'r Cytundeb Atodol hwn. Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn, nodwch y canlynol:

a) Gall Y Brifysgol Agored rannu (neu bydd yn rhannu ar gyfer Prentisiaid) gwybodaeth am eich perfformiad academaidd a'r safonau proffesiynol sy'n ymwneud â'ch astudiaeth ar gyfer cymhwyster Nyrsio â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr Dysgu, eich Noddwr Ariannol ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad. Yn benodol, gall gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad gael ei rhannu lle gallai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu'ch addasrwydd i ymarfer a'ch cyfranogiad parhaus mewn unrhyw amgylchedd ymarfer dysgu.

b) Gall Y Brifysgol Agored ystyried unrhyw bryderon drwy ei Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer (Saesneg yn unig) a all arwain at osod amodau ar eich cofrestriad parhaus ar y rhaglen, eich gwahardd dros dro neu eich dadgofrestru o'r rhaglen, neu eich diarddel o'r Brifysgol Agored.

c) Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd sydd wedi'i ddatgan gael ei rhannu â Darparwyr Lleoliad yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol er mwyn darparu addasiadau rhesymol. Hefyd, gall data gael eu rhannu fel nad ydych chi nac aelodau o'r cyhoedd mewn perygl wrth i chi gyflawni lleoliad.

d) Bydd Y Brifysgol Agored yn cadw unrhyw wybodaeth a rennir yn ddiogel ac yn prosesu data yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr, Hysbysiad Preifatrwydd Nyrsio a Hysbysiad Preifatrwydd Prentisiaethau. Bydd eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Noddwr Ariannol ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad yn storio ac yn prosesu gwybodaeth yn unol â'u Hysbysiadau Preifatrwydd.

e) Gall eich Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr Ariannol (lle y bo'n gymwys), eich Noddwr Dysgu neu unrhyw Ddarparwr Lleoliad hysbysu'r Brifysgol Agored am unrhyw faterion a allai godi pryderon am eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio.

f) Gall Y Brifysgol Agored, eich Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr Dysgu, eich Noddwr Ariannol (lle y bo'n gymwys) ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad rannu gwybodaeth a thystiolaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol, addasrwydd i ymarfer, cyflogaeth barhaus neu eich cyfranogiad mewn Cyfnod Ymarfer Dysgu. Mae gan eich Noddwr Dysgu, fel eich cyflogwr, yr hawl i ddelio â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth o dan ei weithdrefnau ei hun, yn annibynnol ar Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer Y Brifysgol Agored. Fodd bynnag, gall hon hefyd gael ei defnyddio mewn perthynas â'r materion hynny.

g) Hefyd, efallai y bydd gan Y Brifysgol Agored rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Awdurdod Rheoleiddio

h) Bydd Y Brifysgol Agored, lle y bo'n ofynnol, yn hysbysu'r Awdurdod Rheoleiddio am unrhyw fater sy'n ymwneud ag addasrwydd neu addasrwydd i ymarfer yr ymchwilir iddo yn ogystal â chanlyniad unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fydd Y Brifysgol Agored yn rhannu gwybodaeth am ymchwiliad i addasrwydd i ymarfer â Noddwr Ariannol (lle y bo'n gymwys), Noddwr Dysgu na Darparwr Lleoliad os ystyrir nad yw'r mater yr ymchwilir iddo yn peri risg ddybryd o dan yr amgylchiadau, na risg i ddefnyddwyr y gwasanaeth na chleifion.

7.2 Pan gwblheir eich cymhwyster Nyrsio, bydd Y Brifysgol Agored, os oes angen ac yn amodol ar gadarnhad parhaus o iechyd a chymeriad da, yn darparu unrhyw adroddiad neu eirda sydd ei angen ar yr Awdurdod Rheoleiddio fel amod dechrau nyrsio.

7.3 Lle na chaiff cymhwyster Nyrsio ei ddyfarnu pan gwblheir y gofynion academaidd, bydd Y Brifysgol Agored yn darparu unrhyw adroddiad neu eirda sydd ei angen ar yr Awdurdod Rheoleiddio o ran y mater hwnnw. Gall fod hyn i'w drosglwyddo'n uniongyrchol i gyflenwr trydydd parti a ddefnyddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio.

---

## 8 Rhoi'r gorau i'ch astudiaethau neu eu gohirio

8.1 Os ydych yn bwriadu gohirio modiwl neu roi'r gorau iddo cyn ei gwblhau, dylech drafod hyn â'ch Tiwtor Staff neu Reolwr Addysg. Os byddwch wedi gohirio modiwl, bydd eich Tiwtor Staff neu Reolwr Addysg, yn ei dro, yn cysylltu â'ch Noddwr Ariannol a/neu Noddwr Dysgu, a all fod yn atebol am unrhyw ffioedd ychwanegol pan fyddwch yn ailddechrau astudio'r modiwl.

8.2 Bydd Y Brifysgol Agored yn gweinyddu unrhyw Gredyd neu Ad-daliadau o ran Ffioedd sy'n ddyledus yn unol â'r Rheolau Ffioedd oni fyddwch wedi ymrwymo i gytundeb penodol â ni a'ch Noddwr Ariannol i unrhyw gredyd neu ad-daliadau o ran ffioedd gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Noddwr Ariannol.

# Rhestr termau

## Awdurdod Rheoleiddio

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

## Y Cod

Mae'n cynnwys y safonau proffesiynol ymarfer ac ymddygiad ar gyfer nyrsys a bydwragedd (gan gynnwys myfyrwyr), fel y'u cyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio.

## Cyfleoedd Ymarfer Dysgu

Y profiadau dysgu a datblygu penodol sydd eu hangen o fewn y Cyfnod Ymarfer Dysgu er mwyn meithrin digon o wybodaeth seiliedig ar waith i gwblhau'r rhaglen nyrsio.

## Cyfnod Ymarfer Dysgu

Cyfnod neu gyfnodau dysgu, lle cewch eich adnabod yn swyddogol fel myfyriwr nyrsio ychwanegol ac na chewch eich cynnwys ar restr ddyletswyddau'r gweithlu, a all ddigwydd yn eich man gwaith neu gyda thrydydd parti.

## Cymhwyster Nyrsio

Y Graddau Cyn Cofrestru, Graddau Sylfaen, a Phrentisiaethau Gradd a gynigir gan Y Brifysgol Agored.

## Cyswllt Cyflogi

Yr unigolyn a enwebwyd gan Noddwr Dysgu i ddarparu cyswllt gweithredol parhaus â'r Brifysgol Agored o ran cyflwyno'r cymwysterau Nyrsio Cyn Cofrestru a gwmpesir gan y Cytundeb Atodol hwn.

## Darparwr Lleoliad

Y sefydliad sy'n darparu mynediad i amgylchedd ymarfer dysgu at ddibenion addysg nyrsio. Gall gynnwys eich Noddwr Dysgu ac unrhyw ddarparwyr lleoliadau ymarfer trydydd parti fel sy'n ofynnol i gyflawni cymwyseddau a deilliannau'r cymhwyster Nyrsio.

## Mentor

Yr unigolyn neu'r unigolion a benodir gan y Noddwr Dysgu i oruchwylio ymarfer dysgu ac asesu deilliannau dysgu perthnasol. Mae'n rhaid iddo neu iddynt feddu ar y cymwysterau priodol drwy gwblhau rhaglen paratoi mentoriaid sydd wedi'i chymeradwyo gan NMC, bod wedi cael y diweddariadau blynyddol ac adolygiadau teirblwydd a bod ar gofrestr mentoriaid fyw.

## Noddwr Ariannol

Y sefydliad neu'r endid sy'n rhoi cymorth ariannol i chi, yn llawn neu'n rhannol, ar gyfer eich ffioedd dysgu a / neu gymorth ariannol arall sy'n gysylltiedig â'ch astudiaeth lle na chaiff ei ddarparu'n uniongyrchol gan eich Cyflogwr neu drwy fenthyciad ffioedd dysgu (Lloegr yn unig).

## Noddwr Dysgu

Eich cyflogwr a'r sefydliad y mae gennych gontract cyflogaeth parhaol ag ef ac sy'n gyfrifol am gefnogi eich rhyddhau i gyflawni ymarfer dysgu ychwanegol a, lle y bo'n gymwys, amser astudio cytûn o fewn oriau gwaith; gall fod yn wahanol i'ch 'Noddwr Ariannol'.

## Panel Canlyniadau Modiwl

Y Panel sy'n gyfrifol am gymeradwyo argymhellion ar gyfer canlyniadau modiwl, gan gynnwys monitro, cynnal a sicrhau ansawdd a safonau modiwlau.

## Rhaglen Nyrsio Cyn Cofrestru

Y term cyffredinol ar gyfer y llwybrau astudio y mae myfyrwyr yn eu dilyn er mwyn cymhwyso fel nyrs neu Gydymaith Nyrsio wrth astudio Gradd Nyrsio, Gradd Sylfaen, neu Brentisiaeth Gradd gyda'r Brifysgol Agored.

## Rheolwr Cyflwyno'r Rhaglen Brentisiaeth (APDM)

Yr unigolyn cyswllt sy'n cynorthwyo Prentisiaid a Chyflogwyr drwy gydol eu Rhaglen Brentisiaeth. Mae'n cynnig cymorth a chyngor ar recriwtio, cofrestru a chymhwysedd; ac mae'n gyswllt rhwng y Cyflogwr a'r Brifysgol Agored. Mae'n darparu cymorth i reolwyr llinell/mentoriaid yn y gweithle a Phrentisiaid. Mae APDMau hefyd yn adolygu, yn olrhain ac yn ymateb i gynnydd Prentisiaid drwy weithio gyda'r Cyflogwr, y Prentis a'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau y cwblheir y rhaglen yn llwyddiannus. Maent yn casglu ac yn gweithredu ar adborth gan y Cyflogwr a'r Prentis er mwyn gwella'r broses hon yn barhaus.

## Tiwtor Staff/Rheolwr Addysg

Yr unigolyn neu'r unigolion a benodir gan Y Brifysgol Agored i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r cymwysterau Nyrsio ar lefel leol, gan gynnwys bod yn rheolwyr llinell Darlithwyr Cyswllt a Thiwtoriaid Ymarfer a chynnal cysylltiadau â'r Noddwr Dysgu, drwy'r Cyswllt Cyflogi fel arfer.

## Tiwtor Ymarfer

Yr unigolyn a benodir gan Y Brifysgol Agored i ddarparu cymorth, arweiniad a sicrwydd ansawdd o ran ymarfer dysgu myfyriwr ac asesiad y Mentor o gymhwysedd y myfyriwr drwy gydol y cymhwyster Nyrsio.

# Eglurhad pellach

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon a sut i'w ddehongli, cysylltwch â'r Tîm Nyrsio drwy'r Tîm Cymorth Myfyrwyr ar +44(0)300 303 5303. Fel arall, gallwch gysylltu â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy'r opsiwn 'Cysylltu â Ni' yn y Ganolfan Gymorth os ydych yn fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r ddogfen bolisi hon a sut y gellir ei gwella, cyflwynwch y rhain i SPR-Policy-Team@open.ac.uk.

# Fformat amgen

Os bydd angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat amgen, cysylltwch â'r Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy http://www.open.ac.uk/contact/ (rhif ffôn +44 (0)300 303 5303), neu eich Tîm Cymorth Myfyrwyr dynodedig drwy StudentHome os ydych yn fyfyriwr gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd.

# Atodiad A

## Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i fyfyrwyr gwblhau eu cymhwyster.

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Y dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd. | Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun rydych yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn ddibynnol arnoch chi. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os bu'r farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais). |
| 2. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu oherwydd salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol. | Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid i gyfnod y salwch gael effaith ar bryd y tynnir yn ôl). |

| | | |
|---|---|---|
| 3. Anabledd | Nid yw'r addasiadau rhesymol a wnaed gan y Brifysgol wedi eich galluogi i astudio'n effeithiol; neu<br><br>Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu<br><br>Mae eich anabledd(au) wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl. | Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. tiwtor neu'r Tîm Cymorth Myfyrwyr<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 4. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth | Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 5. Analluogrwydd annisgwyl estynedig ar eich rhan chi oherwydd ailbennu rhywedd | Os oeddech wedi bod drwy'r broses o ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |

| | | |
|---|---|---|
| 6. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, cyfathrebu gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio. | Oni fydd aelod o luoedd arfog Prydan yn cael ei leoli rhywle, ni chaiff amgylchiadau a all godi fel rhan o fywyd gwaith arferol megis newid swydd, symud, llwyth gwaith cynyddol neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried. | Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu e-bost gan eich cyflogwr neu bennaeth milwrol. |
| 7. Camweinyddu ar ran y Brifysgol. | Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ran y Brifysgol ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth y Brifysgol. | Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt myfyrwyr. |
| 8. Amgylchiadau eithriadol eraill difrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth. | Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus. | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau brys, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd. |
| 9. Cyfrifoldebau gofalu | Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa. |